

## Gwybodaeth a gasglwyd ar ganllawiau ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau, Mawrth 2014

Yn ystod mis Chwefror a mis Mawrth buom yn siarad ag oddeutu 50 o sefydliadau yn y digwyddiadau bwrdd crwn, gan fynychu digwyddiadau allanol a derbyn dros 120 o ymatebion i'r arolwg ar-lein.

### **Arolwg: Canfyddiadau allweddol**

- Derbyniwyd ymatebion gan amrywiaeth eang o sefydliadau, sy'n gweithio ar draws Lloegr, yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon - y grŵp mwyaf o ymatebwyr oedd elusennau (64%).
- Cafwyd ymatebion gan sefydliadau o bob maint. Cafwyd y mwyaf o ymatebion oddi wrth sefydliadau oedd â 10,000-100,000 o gefnogwyr (26%).
- Dywedodd 30% o'r ymatebwyr eu bod wedi bod mewn cysylltiad â ni o'r blaen trwy ddarllen ein canllawiau, gofyn am gyngor neu gofrestru fel ymgyrchwyr di-blaid.
- Roedd 32% o ymatebwyr yn eithaf hyderus eu bod yn deall y rheolau newydd ar ymgyrchu gan rai nad ydynt yn bleidiau.
- Y mathau mwyaf cyffredin o weithgaredd sy'n debygol o gael ei wneud yn y cyfnod hyd at etholiad cyffredinol Senedd y DU 2015 yw ymgyrchoedd e-bost, diweddariadau gwefan, taflenni, lansiadau adroddiad, digwyddiadau AS a digwyddiadau cyhoeddus.
- Roedd yr ymatebwyr yn awyddus i dderbyn arweiniad ar yr holl feysydd a awgrymwyd yn yr arolwg; y mwyaf poblogaidd oedd "pa fath o ymgyrchu sy'n cael ei weld fel un y bwriedir iddo ddylanwadu ar sut mae pobl yn pleidleisio mewn etholiadau?" (92%).
- Teimlwyd mai crynodebau o'r rheolau a'r Cwestiynau Cyffredin oedd y ffyrdd mwyaf defnyddiol o dderbyn gwybodaeth. Mae'r diweddariadau ymgyrchwyr eisoes yn cael eu defnyddio'n dda - roedd 47% o ymatebwyr eisoes yn eu defnyddio, ac roedd 36% arall yn bwriadu eu defnyddio.
- Roedd yr ymatebwyr yn awyddus i dderbyn gwybodaeth yn yr holl ffyrdd a amlinellwyd. Y canllawiau ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau newydd oedd y mwyaf poblogaidd (gydag 80% yn bwriadu defnyddio'r rhain), byddai 41% yn hoffi defnyddio ein gwasanaeth cyngor e-bost a dros y ffôn a 29% ein gwe-seminarau. Roedd nifer o ymatebwyr hefyd yn awyddus i gyfarfod wyneb yn wyneb.

Ceir crynodeb o'r wybodaeth a gasglwyd a'r camau rydym yn eu cymryd isod:

Yr adborth a dderbyniwyd	Y camau nesaf
<p><b>A oes rhaid i bawb sy'n ymgyrchu gofrestru gyda'r Comisiwn?</b> Roedd nifer o ymatebwyr yn aneglur p'un a fyddai pob gweithgaredd ymgyrchu angen cofrestru a beth oedd cofrestru yn ei olygu.</p>	<p>O dan y rheolau newydd, mae'n bwysig cofio bod rhaid i ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau gofrestru gyda ni os ydynt yn dymuno gwario mwy na £20,000 yn Lloegr neu £10,000 yng Ngogledd Iwerddon, yr Alban neu Gymru ar 'weithgaredd ymgyrchu rheoledig' yn ystod y 'cyfnod a reoleiddir '. Bydd ein canllawiau yn cynnwys enghreifftiau o ba weithgareddau fydd yn debygol o gael eu rheoleiddio, a'r rhai na fyddant yn debygol o gael eu rheoleiddio.</p> <p>Os byddwch yn gwario llai na'r symiau hyn ar weithgareddau ymgyrchu rheoledig yn ystod y cyfnod a reoleiddir, nid oes angen i chi gofrestru. Os ydych yn ymgymryd â gweithgaredd ymgyrchu nad yw'n cael ei reoleiddio, nid oes angen i chi gofrestru, ac os ydych yn ymgyrchu y tu allan i gyfnod a reoleiddir, nid oes angen i chi gofrestru.</p> <p>Mae cofrestru yn broses syml. Gallwch gael mwy o wybodaeth am gofrestru yn y <a href="#">diweddariad Ymgyrchwyr 3</a>.</p>
<p><b>O dan ba amgylchiadau fydd fy ngweithgaredd yn cael ei reoleiddio?</b> Mynegodd llawer o ymatebwyr bryder penodol am yr hyn y gellid ei gynnwys dan "ystyrir yn rhesymol fod bwriad iddo hyrwyddo neu sicrhau llwyddiant etholiadol" ac roeddynt eisiau i'r canllawiau fod mor glir a diamwys â phosibl.</p>	<p>Bydd ein canllawiau yn esbonio sut i benderfynu p'un a yw eich gweithgaredd yn cael ei reoleiddio, ac rydym wedi ymrwmo i ddarparu canllawiau sydd mor glir â phosibl o fewn cyd-destun y ddeddfwriaeth.</p> <p>Yn y byrddau crynion, rhannodd y cyfranogwyr nifer fawr o enghreifftiau gyda ni o weithgaredd ymgyrchu na fyddai'n cael ei reoleiddio gan y rheolau newydd, megis anfon datganiadau i'r wasg i newyddiadurwyr neu lobïo gwleidyddion ynglŷn â chynnwys maniffestos pleidiau gwleidyddol. Mae'n bwysig i ymgyrchwyr beidio â chymryd yn ganiataol bod popeth y</p>

	<p>maent yn ei wneud mewn cyswllt â'r etholiad yn cael ei reoleiddio, ond yn hytrach i ddilyn y camau a fydd yn cael eu hamlinellu yn y canllawiau i asesu p'un a yw gwariant ar ymgyrchu penodol yn dod o fewn y rheolau.</p> <p>Gallwch gael mwy o wybodaeth am weithgareddau ymgyrchu a reoleiddir yn y <a href="#">diweddariad Ymgyrchwyr 2</a>.</p>
<p><b><i>Pleidiau gwleidyddol yn cefnogi fy ymgyrch</i></b> – roedd llawer o ymatebwyr eisiau eglurhad o'r hyn a fyddai'n digwydd pe bai plaid wleidyddol yn cefnogi ymgyrch bresennol</p>	<p>Os yw plaid wleidyddol yn cefnogi ymgyrch bresennol sefydliad, mae ein canllawiau presennol yn esbonio fel arfer na fydd y sefydliad yn cael ei reoleiddio oni bai fod y sefydliad yn newid ei ymgyrch o ganlyniad i gefnogaeth y plaid.</p>
<p><b><i>A fydd y canllawiau yn barod cyn mis Gorffennaf?</i></b> Roedd rhai ymatebwyr yn awyddus i dderbyn gwybodaeth yn gynharach na mis Gorffennaf os yn bosibl</p>	<p>Er ein bod yn annhebygol o lansio'r canllawiau ynghynt na mis Gorffennaf cynnar, byddwn yn parhau i gyhoeddi diweddariad Ymgyrchwyr bob 2-3 wythnos tan fis Gorffennaf ac rydym wedi lansio adran Cwestiynau Cyffredin newydd ar y <a href="#">wefan</a>.</p> <p>Os oes gennych unrhyw ymholiadau yn y cyfamser, gallwch gysylltu â ni ar 029 2034 6800 neu <a href="mailto:gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk">gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk</a>.</p>
<p><b><i>Gwahanol fathau o gefnogwyr</i></b> – yn ogystal â'r mathau o gefnogwyr a restrir yn yr arolwg, amlygodd ymatebwyr bwysigrwydd ystyried nifer o gefnogwyr eraill megis defnyddwyr gwasanaeth, ymgyrchwyr, mynychwyr gwasanaethau ffydd a grwpiau lleol. Roedd pobl yn awyddus i'r canllawiau roi diffiniad clir o "gefnogwr ymroddedig".</p>	<p>Rydym yn gwybod bod hwn yn fater pwysig i ymgyrchwyr. Mae'r gyfraith yn rheoleiddio rhai gweithgareddau ymgyrchu a gyfeirir tuag at y cyhoedd neu ran o'r cyhoedd. Nid yw'n diffinio'r hyn a olygir gan y "cyhoedd". Ar hyn o bryd rydym yn gweithio ar ganllawiau i esbonio sut i wahaniaethu rhwng y cyhoedd a chefnogwyr ymroddedig (nad ydym yn eu cyfrif fel y cyhoedd i'r dibenion hyn).</p>
<p><b><i>Sut fydd y rheolau yn gweithio mewn etholiadau datganoledig yn y dyfodol?</i></b> Cafwyd ymholiadau</p>	<p>Bydd ein canllawiau sydd ar y gweill yn esbonio sut i benderfynu a yw eich gweithgaredd mewn etholiadau penodol</p>

<p>penodol am sut y bydd y rheolau yn gweithio yn y cyfnod yn arwain at etholiadau i Senedd yr Alban, Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Chynulliad Gogledd Iwerddon. Roedd ymgyrchwyr mewn ardaloedd datganoledig hefyd eisiau gwybod a fyddai gweithgareddau wedi'u targedu ar ddeddfwrfeydd datganoledig o bosibl yn cael eu rheoleiddio yn ystod y cyfnod a reoleiddir mewn etholiadau cyffredinol Senedd y DU</p>	<p>yn cael ei reoleiddio. Byddwn hefyd yn cynnal seminarau hyfforddiant pellach yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn dilyn cyhoeddi'r canllawiau yn gynnar ym mis Gorffennaf.</p> <p>Byddwn yn diweddarau ein canllawiau yn yr Hydref 2015 cyn yr etholiadau datganoledig yn 2016, i egluro pa rannau o'r rheolau newydd sy'n berthnasol i'r etholiadau hyn.</p>
<p><b>Gweithio gyda'n gilydd:</b> Roedd nifer fawr o sefydliadau eisiau eglurhad ar sut ac os yw gweithio mewn clymblaid yn dod o dan y rheolau. Cawsom nifer o enghreifftiau defnyddiol o glymbleidiau anffurfiol.</p>	<p>Byddwn yn cynhyrchu canllawiau penodol ar weithio gydag eraill, yn cwmpasu sut y mae'r rheolau hyn yn berthnasol i'r gwahanol ffyrdd y gall sefydliadau weithio gyda'i gilydd. Byddwn hefyd yn darparu mwy o wybodaeth ar weithio mewn clymblaid mewn diweddariad yn y dyfodol.</p>
<p><b>Costau staff:</b> Gofynnwyd am ddull syml, synnwyr cyffredin o gyfrifo costau staff</p>	<p>Byddwn yn cynhyrchu canllawiau ar gostau staff. Rydym yn dal i weithio ar yr union fformat, ond gallwn gadarnhau na fyddwn angen gwybodaeth fanwl fel taflenni amser.</p>
<p><b>Gweithgaredd ar-lein:</b> Gofynnodd nifer o ymatebwyr am eglurhad ynghylch sut y bydd y rheolau yn cwmpasu gweithgaredd ar-lein fel Facebook a Twitter. Rydym hefyd wedi derbyn ymholiadau gan flogwyr sydd eisiau gwybod sut y gallai'r rheolau effeithio ar eu gweithgareddau.</p>	<p>Bydd ein canllawiau yn darparu enghreifftiau o sut fydd gweithgaredd ar-lein yn cael ei gwmpasu neu beidio dan y rheolau newydd. Bydd hefyd yn cynnwys sut y gallai'r rheolau ymgyrchu di-blaid effeithio ar flogwyr.</p>
<p><b>Gweithio gyda chynrychiolwyr etholedig:</b> Cawsom nifer o ymholiadau ynghylch sut yr effeithir ar ymgyrchu sy'n cynnwys cardiau addewid, maniffestos a chynadleddau pleidiau</p>	<p>Mae p'un a yw'r mathau hyn o weithgareddau yn cael eu rheoleiddio ai peidio yn dibynnu ar sut maent yn cael eu cynnal. Mae'n bwysig cofio, os ydych yn cyfathrebu'n uniongyrchol â chynrychiolwyr etholedig ac nad yw'r cyhoedd yn cymryd rhan, yna bydd eich gweithgaredd yn annhebygol iawn o gael ei reoleiddio. Bydd ein canllawiau'n cynnwys nifer o astudiaethau achos i ddangos sut y mae'r rheolau hyn yn</p>

	berthnasol i'r technegau ymgyrchu mwyaf cyffredin.
<b>Ymgyrchoedd etholaethau:</b> Mwy o wybodaeth am yr hyn a olygir gan ymgyrchu etholaethol a sut i roi cyfrif am ddigwyddiadau lleol sy'n croesi ffiniau etholaeth	Byddwn yn cynhyrchu canllawiau penodol ar ymgyrchu etholaethol a fydd yn ymdrin â materion traws-etholaeth.
<b>Aros o fewn y rheolau:</b> rydych wedi gofyn am wybodaeth ynglŷn â sut mae'r Comisiwn Etholiadol yn delio â honiadau a sut mae'n gorfodi diffyg cydymffurfio	Byddwn yn ystyried pob honiad a dderbynnir, ond mae gennym brosesau cadarn i sicrhau nad ydym ond yn ymgymryd â'r achosion hynny lle rydym yn fodlon bod yr honiad yn dangos potensial o dor cyfraith a bod tystiolaeth i gefnogi'r honiad. Gellir cael mwy o wybodaeth am sut yr ydym yn ystyried honiadau ar y dudalen orfodi ar ein gwefan. Gallwch gael mwy o wybodaeth yn y <a href="#">diweddariad Ymgyrchwyr 4</a> .
<b>Derbyn gwybodaeth am y canllawiau wyneb-yn-wyneb:</b> Teimlai nifer o ymatebwyr y byddai'n ddefnyddiol clywed gwybodaeth yn uniongyrchol gennym ni.	Rydym yn cynllunio gwe-seminarau a seminarau yn Lloegr, yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon yn dilyn cyhoeddi'r canllawiau i egluro'r rheolau yn fwy manwl. Byddwn yn darparu mwy o fanylion fel y caiff y rhain eu cadarnhau.